Archwilio'r gallu i glywed

Trosolwg

Gall promptiau synhwyraidd syml helpu rhieni a gofalwyr i fanteisio ar eiliadau chwaraegar.
Ceisiwch dynnu sylw at y synhwyrau drwy fannau a deunyddiau naturiol.



Gweithgareddau

Archwiliwch ardd y feithrinfa gan ddefnyddio'r gallu i glywed.
Gorchuddiwch eich llygaid a gwrandewch ar y synau yn eich mannau awyr agored. Ewch am dro i glywed synau, a chyfrwch faint o wahanol synau y gallwch eu clywed. Defnyddiwch eich bysedd i gofio pob peth. Gallwch 'glywed fel carw' o roi eich dwylo y tu ôl i'ch clustiau ac yna o'u blaen i wrando ar yr hyn sydd y tu ôl i chi. Sylwch sut y mae'r sŵn yn newid pan fyddwch yn symud eich dwylo.

Offer

- Brigau i dapio neu ar gyfer offerynnau taro
- Mygydau neu hetiau i orchuddio'r llygaid

Cwestiynau allweddol

Beth gallwch chi ei glywed?
O ble mae'r synau yn dod?
Pryd mae'n gryf?
Pryd mae'n dawel?
Sut y mae'r… yn gwneud y sŵn yna?

Deilliannau dysgu

- Deall y byd. Chwilfrydedd, syndod a rhyfeddod.
- STEM – archwilio syniadau'n ymwneud â sŵn, y modd y mae'n symud, a beth sy'n gwneud synau.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Defnyddiwch frigau ar gyfer offerynnau taro. Ratlwch y rheiliau a thapiwch y bonion coed. A ydynt yn gwneud yr un synau? Pam? Pam ddim?
- Canwch ganeuon a rhigymau sy'n ymwneud â byd natur.